# De Hillsboro, Porthcawl
# Briff Marchnata

## 1.0 Cyflwyniad

Mae adfywio y Glannau Porthcawl a’r ardaloedd cyfagos yn elfen allweddol i ddatblygu Porthcawl yn y dyfodol fel prif gyrchfan glan môr. Mae'r Cyngor yn dymuno marchnata 5 strwythur modiwlaidd (cynwysyddion cludo wedi'u trosi ar gyfer defnydd manwerthu) er mwyn hybu mentrau busnes masnachol bach yn yr ardal.

## 2.0 Disgrifiad o’r safle

Mae’r safle sydd I’w gael ei ddatlygu yw Maes Parcio De Hillsboro, ger Stryd y Doc, Porthcawl. Mae’r datblygiad arfaethedig yn cynnwys 5 unit ynghud a gwaith cysylltiedig am gyfnod dros-dro o dair mlynedd am ddefnydd manwerthu (Dosbarth defnydd A1). Mae’r safle yn cael ei wasanaethu gan y maes parcio cyhoeddus. Bydd yr unedau yn cael eu lleoli ger y dau uned presennol, ar bwys yr hen Adeilad Harlequin, sydd yn cael ei ddefnyddio ar y hyn o bryd fel siop di-wastraff, sef y Pantri Box.

Mae 3 o'r cynwysyddion yn 6m o hyd a 2.5m o led

Mae 2 o'r cynwysyddion yn 3m o hyd a 2.5m

Mae'r cynwysyddion yn elwa o ddŵr prif gyflenwad (sinc bach a thap gyda poeth ac oer), cyflenwad trydan (socedi mewnol lluosog a goleuadau) a gwresogydd trydanol.

Mae'r 5 cynhwysydd a gynigir yn dilyn cam cyntaf 2 uned gynwysyddion ar ochr orllewinol y maes parcio. Mae lleoliad dangosol y cynwysyddion a'r fanyleb i'w gweld yn y delweddau isod.





### 3.0 Cynllunio

Ceir manylion llawn y cais a gymeradwywyd (Cyf: P/24/510/BCB) a chynlluniau a gymeradwywyd yn:

https://planning.bridgend.gov.uk/Planning/Display/P/24/510/BCB

### 4.0 Y Weledigaeth ar gyfer De Hillsboro

Y weledigaeth gyda’r cynllun yw cynnig cyfle risg isel i fusnesau bach ac entrepreneuriaid gymryd eu camau cyntaf i'r farchnad rhentu masnachol. Y gobaith yw y byddant yn mentro ar delerau hyblyg er mwyn sefydlu ac ehangu, cyn symud i safle arall parhaol ym Mhorthcawl. Y gobaith yw y bydd y busnesau hyn yn helpu i wella'r hyn sy'n cael ei gynnig yn y dref ar hyn o bryd, ac y byddant yn atyniad drwy gydol y flwyddyn i’r rhai sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Phorthcawl. Dyma’r meini prawf allweddol i'w hystyried ar gyfer ei ddefnyddio yn y dyfodol;

- • Rhaid iddo ddarparu ar gyfer ymwelwyr yn ogystal â'r gymuned leol
- • Rhaid i’r busnes fod o fewn dosbarth defnydd A1, a rhaid iddo ddarparu nwyddau neu wasanaethau sy'n gwella'r cynnig presennol yng Nghanol y Dref
- • Bydd angen tystiolaeth y gall y busnes ddenu ymwelwyr o’r tu allan i Borthcawl trwy gydol y flwyddyn a chefnogi ei rôl fel cyrchfan i dwristiaid

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn marchnata'r eiddo gan ddefnyddio ei sianeli ei hun, gan dderbyn ceisiadau gan fusnesau/mentrau i egluro sut byddant yn bodloni'r meini prawf a amlinellir uchod.

### 5.0 Marchnata

Mae'r Cyngor yn awyddus i ganfod y deiliaid gorau ar gyfer yr eiddo, a bydd yn sgorio pob cais yn ôl ei deilyngdod yn seiliedig ar strategaeth farchnata'r Cyngor,

Bydd y Cyngor yn codi arwyddion 'I’w Osod' y tu allan i'r eiddo yn ystod y cyfnod marchnata, ac yn defnyddio ei gyfrifon cyfryngau cymdeithasol i hysbysu partïon sydd â diddordeb pan fydd yn

derbyn cynigion. Bydd y Cyngor hefyd yn gwahodd cynigion yn ystod trafodaethau parhaus y Tîm Datblygu Economaidd â busnesau lleol.

## 6.0 Gofynion ar y Tenant

Bydd gofyn i'r tenant llwyddiannus;

• Gymryd les o 1 flwyddyn ar y byrraf, a 2 flynedd ar yr hiraf. Gall y Landlord neu'r Tenant dorri'r les drwy roi 3 mis o rybudd ysgrifenedig
• Bydd angen i'r busnes fod ar agor o leiaf 6 diwrnod yr wythnos
• Y Tenant sydd yn gyfrifol am dalu costau cyfleustodau (Dŵr a Thrydan)
• Bydd y Tenant yn talu rhent cyfnod prysur (1 Mawrth tan 31 Hydref) o £125 yr wythnos, a rhent cyfnod tawel (1 Tachwedd i 28 Chwefror) o £75 yr wythnos (£5650yf)
• Bydd rhaid i'r Tenant gael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol

## 7.0 Rheoli'r Eiddo

Bydd yr eiddo yn cael ei reoli gan yr adran Landlordiaid Corfforaethol o fewn ei Bortffolio Eiddo Masnachol

## 8.0 Cysylltiadau

**Y prif gysylltiadau ar gyfer y comisiwn hwn yw:**

**Robert Frowen, Rheolwr Tîm Datblygu Economaidd**
**Jonathan Phipps, Syrfëwr Portffolio Masnachol**

Robert.frowen@bridgend.gov.uk Ffôn: 01656 642787
Jonathan.phipps@bridgend.gov.uk Ffôn: 01656 642706